# Gofalu Am Ein Cwsmeriaid: Pwysedd Dŵr




## Ein canllaw i gwsmeriaid ynglŷn â'n polisi pwysedd dŵr

Rydym wedi creu'r canllaw hwn i ddarparu cymorth ac arweiniad ichi petai gennych unrhyw gwestiynau am eich pwysedd dŵr, llif y dŵr neu doriadau ar y cyflenwad. Bydd yn darparu trosolwg ar yr hyn y dylech ei wneud pan ddowch yn ymwybodol o broblemau sy'n effeithio ar eich defnydd beunyddiol o ddŵr. Bydd hefyd yn rhoi arweiniad ichi ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am drwsio'r broblem.

## Deall toriadau ar y cyflenwad dŵr

Toriad ar gyflenwad dŵr yw pan fo yna doriad wedi bod mewn gwasanaeth am gyfnod o amser.

Gallai hyn olygu nad oes gennych gyflenwad dŵr yn dod i mewn i'ch cartref neu fod eich pwysedd dŵr yn isel iawn ac nad ydych yn gallu cael llif cyson o ddŵr.

## Sut bwysedd dŵr y dylech ei ddisgwyl

Dylai'r pwysedd dŵr o'ch tapiau fod yn ddigon nerthol i lenwi jwg 1 litr o fewn 7 eiliad. Gelwir hyn yn eich cyfradd llif.

Mesurir y pwysedd hwn yn y man y mae'r cysylltiad â'n rhwydwaith yn hytrach nag yn y tap. Y ni sy'n gyfrifol am y pwysedd ym man y cyflenwad, lle mae'ch cartref yn cysylltu â'n rhwydwaith ni. Dyma le y lleolir y tap cau dŵr allanol.

Mae yna rwymedigaeth gyfreithiol arnom i ddarparu 1 bar o bwysedd dŵr neu 10 metr o ben statig ichi. Bar yw'r uned ar gyfer pwysedd, ac mae 1 bar o bwysedd yn ddigon i wthio dŵr i fyny, a adwaenir fel pwysedd statig, i 10 metr.

Ein nod yw darparu dŵr ar bwysedd o 1.5 bar neu 15 metr o ben statig, a ddylai fod yn ddelfrydol ar gyfer defnydd beunyddiol.

## Y gwahaniaeth rhwng llif dŵr a phwysedd dŵr

Pwysedd dŵr yw'r grym y tu ôl i'r dŵr, a llif yw cyfaint y dŵr.

## Pam y gallech brofi toriad ar y cyflenwad, problemau llif neu bwysedd

Yr achos mwyaf cyffredin am doriadau ar gyflenwad dŵr a phroblemau pwysedd yw trafferthion â gwaith plymio yn y cartref, rhwygiadau neu waith rydym yn ei wneud ar y rhwydwaith cyflenwi dŵr yn eich ardal.

Mae rhesymau eraill yn cynnwys:

- gollyngiad nas gwelwyd, mewnol neu allanol
- trap aer neu rwystr yn y pibelli
- gwaith plymio diffygiol

Gellir hefyd effeithio ar eich llif drwy:

- galw uchel am ddŵr yn y bore neu'n gynnar gyda'r nos
- maint eich pibell wasanaethu
- cyflwr eich pibell wasanaethu
- uchder eich adeilad
- newid mewn pwysedd rydym wedi'i wneud i wella'n rhwydwaith dŵr neu i ddiogelu'r rhwydwaith rhag gollyngiadau neu ddifrod.

### Pwysedd gwahanol mewn cartref newydd

Os ydych wedi symud i gartref newydd yn ddiweddar, gallech sylwi bod y pwysedd dŵr yn wahanol i'r pwysedd roedd gennych yn eich cartref blaenorol.

Gallai hyn fod oherwydd newidiadau bychain yn yr ystod o bwysedd sydd ar gael ledled ein rhanbarth, neu gallai fod oherwydd bod eich cartref newydd ar gyflenwad a rannir. Mae hi hefyd yn werth gwirio bod y tapiau cau dŵr allanol a mewnol ar gyfer yr eiddo wedi'u hagor i'r pen.

### Cyflenwad a rannir

Gall bod ar bibell cyflenwad a rannir leihau'r pwysedd a gewch drwy'ch tap, gan y rhannir eich pibell gyflenwi ag eiddo cyfagos.

Gwiriwch gyda'ch cymdogion i weld a ydynt yn profi problemau tebyg o ran cyflenwad neu bwysedd. Os ydych ar gyflenwad a rannir, gallai fod o gymorth ichi newid i gyflenwadau sengl, ar wahân.

Gallai ein cynllun gwahanu cyflenwad a rannir eich helpu: www.hdcymru.co.uk/building-and-developing/house-developments/replace-an-existing-supply/shared-separation-scheme/

## Gwiriwch am broblemau pwysedd gartref cyn ichi gysylltu â ni

Mae yna rai profion a gwiriadau syml y gallwch eu gwneud eich hun i helpu i ganfod a oes yna unrhyw broblemau â'ch pwysedd dŵr cyn ichi gysylltu â ni. Mae'r gwiriadau hyn yn helpu i roi diagnosis o'r hyn a allai fod yn peri'r broblem:

**Gwiriwch a oes yna broblem yn yr ardal a chan eich cymdogion**

- Os nad oes gennych ddŵr neu os oes gennych bwysedd isel, efallai bod yna broblem yn eich ardal. Fe allwch wirio a roddwyd gwybod inni eisoes drwy wirio'n map rhyngweithiol www.hdcymru.co.uk/in-my-area/overview. Os yw pobl eraill sy'n byw ar eich stryd yn cael yr un broblem â chi, rydym yn argymell eich bod yn gwirio a yw'ch cymdogion wedi bod yn gwneud unrhyw waith plymio yn eu cartrefi. Mae'n gyffredin y gall un bibell gyflenwi mwy nag un cartref, ond efallai nad yw cymdogion yn sylweddoli eu bod wedi effeithio ar gartrefi eraill.

**Gwiriwch a yw'ch tap cau mewnol yn llwyr agored**

- Er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y llif dŵr uchaf posibl, rydym yn cynghori eich bod yn gwirio bod eich tap cau mewnol yn llwyr agored. Fe allwch ganfod eich tap cau mewnol fel arfer o'r golwg o dan sinc y gegin. Os nad yw'r tap yn llwyr agored, trowch y tap yn araf i weld a yw hynny'n gwella'r pwysedd.

**A oes yna unrhyw waith plymio wedi'i wneud yn ddiweddar ichi?**

- Os oes yna waith plymio wedi'i wneud yn eich cartref yn yr 48 awr ddiwethaf, fe allai newid mewn pwysedd fod yn gysylltiedig â hyn. Cysylltwch â phwy bynnag a wnaeth y gwaith, neu fe allwch gysylltu â phlymwr www.hdcymru.co.uk/in-my-area/find-a-plumber i ymchwilio.

**Gwiriwch a yw'r pibelli mewn cyflwr da**

- Os yw'ch pibelli mewn cyflwr gwael, fe all newidiadau mewn pwysedd roi straen ar y pibelli a gwneud iddo rwygo, ac felly mae'n bwysig eich bod yn diogelu'ch pibelli yn ystod tywydd oer www.hdcymru.co.uk/my-services/winter-ready/protect-your-home ac yn cysylltu â phlymwr os ydych yn gweld unrhyw bibelli sydd wedi'u difrodi.

**Gwiriwch offer y cartref am unrhyw ollyngiadau sydd o'r golwg**

- Rydym hefyd yn argymell eich bod yn edrych yn ofalus ar eich holl offer cartref i wirio a oes yna ollyngiadau o'r golwg a all gyfrannu at bwysedd isel. Rydym yn darparu canllawiau ar ein gwefan yn ymwneud â sut i wirio am ollyngiadau www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/faqs/how-do-i-know-if-i-have-a-leak-in-or-around-my-home-or-business.

**Gwiriwch a yw'r broblem yn breifat**

- Os yw'ch tapiau dŵr oer yn gweithio, ond nid yw'r dŵr a ddaw o'r tapiau dŵr poeth yn poethi, mae hyn yn dynodi problem fewnol - gyda'r foeler, os bosibl. Dylai plymwr allu'ch helpu â'r mater hwn. Fe allwch ganfod eich plymwr eich hun neu ddefnyddio un o'n plymwyr cymeradwy ni www.hdcymru.co.uk/in-my-area/find-a-plumber.

**Gwiriwch a oes yna drapiau aer neu rwystrau**

- Fe allai problemau pwysedd hefyd fod yn gysylltiedig â thrap aer neu rwystr yn y pibelli. Fe allwch geisio clirio'r rhwystr drwy droi'r tap dŵr oer agosaf at eich tap cau mewnol yn agored i'r pen ac wedyn cau ac agor eich tap cau mewnol 7-8 o weithiau ar ôl ei gilydd. Os yw'r broblem yn parhau ar ôl hynny, rydych yn cysylltu â phlymwr www.hdcymru.co.uk/in-my-area/find-a-plumber i ymchwilio.

## Sut i brofi llif eich dŵr

Gallwch brofi llif eich dŵr gartref yn hawdd drwy ddefnyddio jwg un litr ac amserydd.

Bydd arnoch angen:

1. Sicrhau bod yr holl dapiau wedi'u cau'n llwyr, ac nad yw unrhyw offer, megis peiriant golchi neu beiriant golchi llestri, yn cael eu defnyddio.
2. Agor tap dŵr oer y gegin led y pen ac amseru faint a gymer hi i lenwi'r jwg un lit â dŵr.

Dylai gymryd tua saith eiliad i lenwi'r cynhwysydd. Os yw'n cymryd llawer hwy na hyn, yna mae'n bosibl bod gennych broblem â phwysedd neu â llif.

Gallwch roi gwybod inni am broblem â phwysedd ar-lein yn [www.hdcymru.co.uk/reportaproblem](http://www.hdcymru.co.uk/reportaproblem).

## Pa bryd i gysylltu â ni ynglŷn â phroblem â'ch pwysedd dŵr


Os ydych wedi gwneud yr holl brofion, efallai y bydd yn rhaid ichi serch hynny gysylltu â ni os oes gennych:

- pwysedd gwael, ond mae pwysedd eich cymdogion yn iawn
- pwysedd isel ac mae gan eich cymdogion yr un peth, hefyd
- problemau â phwysedd ar ôl ymweliad diweddar gennym i wneud gwaith yn eich cartref neu yn yr ardal
- pwysedd uchel
- pwysedd gwael parhaus

## Sut y rhannir cyfrifoldeb am bibelli rhyngom ni a pherchennog y cartref

Mae'r cyfrifoldeb am bibelli a gosodiadau dŵr yn dibynnu ar le mae'r seilwaith.

Y chi sy'n gyfrifol am bibelli o fewn terfyn eich eiddo. Y ni sy'n gyfrifol am fesuryddion dŵr, ac am seilwaith ar dir cyhoeddus.



Pan fo’r broblem yn gyfrifoldeb arnom ni, gwnawn ei thrwsio mor gyflym â phosibl. Pan fo arnom angen gwneud gwaith trwsio ar ein rhwydwaith, ein nod yw sicrhau bod eich gwasanaeth yn cael ei adfer mewn llai na 3 awr. Fodd bynnag, gall gorchwylion mwy o faint weithiau gymryd mwy o amser. Os eich cyfrifoldeb chi yw’r broblem, gwnawn ddarparu’r cyngor ichi y mae arnoch ei angen i drwsio’r broblem.

## Os oes gennych bwysedd dŵr gwael, ond nid felly’ch cymdogion

**Cam 1** Cysylltu a Rhoi Arweiniad → **Cam 2** Cysylltwn â Chi → **Cam 3** Ymweliad gan Beiriannydd → **Cam 4** Canlyniadau → **Cam 5** Gorffen Gwaith ac Adborth

### Beth sy’n digwydd nesaf

### Cam 1: Cysylltu a Rhoi Arweiniad

- Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, gan ddefnyddio negesydd gwe, cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch drwy’n ffonio ar 0800 085 8033, a gwnawn wirio a oes yna broblem y gwyddys amdani yn yr ardal. Os oes yna broblem y gwyddys amdani, fe’ch hysbysir am yr amser datrys a amcangyfrifir. Gallwch gysylltu â’n tîm yn hdcymru.co.uk/contact-us
- Os nad oes yna broblem y gwyddys amdani, bydd ein tîm yn eich tywys drwy’r gwiriadau uchod, rhag ofn nad ydych wedi’u cynnal eisoes.
- Gwnawn hefyd wirio a ydych eisoes wedi cynnal prawf pwysedd a gofynnwn am fanylion y gwiriad. Gan ddibynnu ar y problemau rydych yn eu cael a chanlyniad y profion a wnewch â’r asiant, gwnânt benderfynu ar y cam nesaf.
- Os yw’n eglur o’r sgwrs â chi mai preifat yw’r broblem, gwnawn ddarparu gwybodaeth i’ch helpu i ddatrys y broblem.
- Os na allwn ganfod yr achos ar y ffôn, gwnawn eich ffonio yn ôl erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

### Cam 2: Cysylltwn â chi i ddod i ddeall mwy

Bydd un o’n timau’n eich ffonio yn ôl i drafod eich problem erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

Os nad ydych yn ateb ein galwad ffôn, gadawn neges llais ichi ac anfon neges testun atoch i ofyn pa bryd fyddai’n amser mwy cyfleus i’ch ffonio yn ôl.

Os oes gennych ddim ond rhif llinell dir ar eich cyfrif, gadawn neges llais yn darparu’r wybodaeth berthnasol ichi.

Os na lwyddwn i gysylltu â chi ar y ffôn, anfonwn lythyr atoch i ddarparu rhagor o gynghorion ichi ynglŷn â sut y gellid gwella’ch pwysedd dŵr.

### Cam 3: Ymweliad gan beiriannydd, os bydd angen

Bydd ein timau’n penderfynu a oes angen ymweliad gan beiriannydd.

Os bydd arnom angen ymweld â chi gartref, gwnawn drefnu apwyntiad gyda chi.

Byddwch yn derbyn cadarnhad o’r apwyntiad drwy neges testun, ac felly gwiriwch eich cyfrif ar-lein i sicrhau bod gennym y manylion cysylltu diweddaraf ar eich cyfer. Gallwch ddiweddaru’ch gwybodaeth gysylltu yn [hdcymru.co.uk/my-account](hdcymru.co.uk/my-account).

Ar ddiwrnod eich apwyntiad, fe dderbyniwch alwad ffôn gan ein peiriannydd i adael ichi wybod eu bod ar eu ffordd. Pan gyrhaeddant, bydd y peiriannydd yn cynnal prawf pwysedd.

Os nad ydych gartref, ond mae’r peiriannydd yn gallu cynnal y prawf, bydd yn gwneud hynny. Bydd yn postio’r canlyniadau drwy’ch blwch llythyrau.

Bydd gan y cerdyn galw:

- Canlyniadau’r prawf
- Y cyfeirnod y gallwch ei nodi
- Y rhif ffôn ar gyfer ein tîm gweithrediadau
- Taflen am sut y gallwch wella’ch pwysedd (os gwnaethom bopeth y gallwn, ac fe ystyrir fod y broblem yn breifat ).

Os nad ydych gartref ac mae’r peiriannydd yn methu â chynnal y prawf pwysedd, bydd y peiriannydd yn gofyn am apwyntiad arall ichi. Byddwch yn derbyn galwad ffôn gennym i ail-drefnu’r apwyntiad.

Bydd y peiriannydd yn gadael ichi wybod ei fod wedi gofyn am ail-drefnu apwyntiad drwy adael cerdyn galw yn eich blwch llythyrau.

### Cam 4: Canlyniadau’r prawf pwysedd

Os ydych gartref, bydd y peiriannydd yn dweud canlyniadau’r prawf pwysedd wrthych:

- Byddant yn cadarnhau a yw’r broblem yn breifat. Os ydyw, byddant yn darparu taflen ichi o opsiynau i wella’ch pwysedd.
- Bydd y peiriannydd yn cadarnhau a yw’r pwysedd yn uwch na’n rhwymedigaeth gyfreithiol, ac a yw hefyd yn uwch na’n nod ar gyfer pwysedd.


Os yw’r broblem o ganlyniad i rywbeth rydym ni’n gyfrifol amdano, bydd y peiriannydd yn trefnu ymweliad arall ar eich cyfer er mwyn datrys y broblem.

Efallai y bydd ar yr ail ymweliad hwn angen dau neu fwy o bobl os bydd arnom angen gwneud unrhyw dyllu i gael at bibelli yr effeithir arnynt.

### Cam 5: Gorffen gwaith ac adborth

Unwaith y bydd y peiriannydd wedi gorffen, gallech dderbyn neges testun gennym yn gofyn ichi am adborth am y gwasanaeth a ddarparasom.

## Os oes gennych chi a’ch cymdogion bwysedd dŵr gwael



**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Cam 1: Monitrwn ein rhwydwaith**

Rydym yn monitro'n rhwydwaith yn barhaus am broblemau pwysedd a all ddigwydd.

Unwaith y down yn ymwybodol o broblem, diweddarwn ein map rhyngweithiol yn hdcymru.co.uk/checkmyarea. Dengys y map hwn y problemau yn yr ardal.

Gallwch chwilio am eich cod post a gweld a oes yna broblem yn agos atoch chi a deall pa bryd fydd yr amser datrys a amcangyfrifir.

Ein nod yw trwsio pob problem ar ein rhwydwaith o fewn 3 awr.

**Cam 2: Gadewch inni wybod am y broblem**

Os ydych yn cael profiad o broblem, ac os yw'ch cymdogion yn cael problem hefyd, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, yn hdcymru.co.uk/contact-us gan ddefnyddio negesydd gwe, cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch â ni drwy'n ffonio ar 0800 085 8033.

Byddwn yn anfon peiriannydd i ymchwilio ac i drwsio'r broblem.

**Cam 3: Hysbyswn ni chi'n rheolaidd**

Pan fo problem yn codi, neu pan ydym yn gweithio ar y rhwydwaith sy'n debygol o effeithio ar eich pwysedd, rydym yn eich hysbysu'n rhagweithiol drwy neges testun (cyn belled â bod eich rhif ffôn symudol gennym).

Diweddarwch eich manylion ar eich cyfrif ar-lein yn hdcymru.co.uk/my-account.

Gadawn ichi wybod pan ydym yn credu y bydd y gwasanaeth yn ailddechrau'n normal. Gallwch hefyd wirio'n map rhyngweithio hdcymru.co.uk/checkmyarea am yr wybodaeth hon.

## Beth i'w wneud os oes yna broblemau â phwysedd yn datblygu ar ôl inni fod yn gweithio yn eich cartref neu yn yr ardal.

Cymerwn gamau i sicrhau ein bod yn profi'r pwysedd cyn inni adael y safle.

Pan gysylltwch â ni yn hdcymru.co.uk/contact-us i adael inni wybod am eich problem â'ch pwysedd, gwnawn wedyn anfon peiriannydd atoch.

Bydd yn anelu at drwsio'r broblem, a gwnawn eich hysbysu'n rheolaidd. Gadawn ichi wybod pan fyddwn wedi datrys y broblem.

## Beth i'w wneud os oes gennych bwysedd uchel

Dim ond ychydig iawn o achosion o bwysedd dŵr rhy uchel y rhoddir gwybod inni amdanynt.

Mae pwysedd dŵr uchel yn nodweddiadol yn amlygu'i hun fel:
- Sŵn curo mewn pibelli
- Gosodion yn gollwng
- Offer yn peidio â gweithio, megis cawodydd, peiriannau golchi neu dapiau'n poeri dŵr.

- Yr achosion mwyaf cyffredin am bwysedd dŵr uchel yw:
- Aer sydd wedi'i drapio wedi mynd yn sownd yn y pibwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar lif y dŵr, a gall ei orfodi i chwistrellu allan gyda phwysedd uwch, fel gwasgu pen pibell ddŵr rwber.
- Os ydych yn byw mewn rhanbarth lle mae'r pwysedd yn ein rhwydwaith yn uchel, megis ardaloedd â llawer o adeiladau uchel neu fryniau, neu os cewch ddŵr o brif gyflenwad y dref.

I ddatrys hyn, gadewch i'ch dŵr oer lifo yn y tap agosaf at eich tap cau dŵr mewnol, yna agorwch a chaewch y tap cau mewnol yn olynol tua 6 gwaith.

Os canfyddwch fod y pwysedd ar gyfer eich pwysedd chi yn rhy uchel, gallwch gau'r tap cau dŵr mewnol ychydig i leihau llif y dŵr i lefel foddhaol, neu gosodwch falf gostwng pwysedd ar eich pibwaith preifat i helpu i reoli pwysedd y dŵr i'ch eiddo.

Os ydych yn profi pwysedd uchel, cysylltwch â ni yn hdcymru.co.uk/contact-us i adael inni wybod, os gwelwch yn dda.

Byddwn yn cymryd yr un camau ag y gwnawn mewn achosion pwysedd isel.

## Sut y gallwn eich cynorthwyo chi a'ch teulu

Deallwn y gallai fod arnoch chi neu'ch teulu weithiau angen cymorth hirdymor.

Rydym yn gallu darparu cymorth unswydd bwrpasol i chi a'ch aelwyd os ymunwch â'n Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth yn hdcymru.co.uk/priority.

Mae hwn yn wasanaeth am ddim, ac mae'n golygu y gallwn ddysgu ychydig yn fwy amdanoch chi, ac mae'n ein helpu ninnau i ddeall eich anghenion penodol chithau.

Mae ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth ar gael i bawb, p'un a ydych chi neu aelod o'ch teulu yn wynebu gwaeledd, pryderon ariannol, rhwystrau iaith neu waeledd corfforol/seicolegol.

Rydym ar gael i geisio darparu cymorth i chi a'ch teulu yn ystod y cyfnod hwnnw.

### Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y canllaw uchod, cysylltwch â ni yn hdcymru.co.uk/contact-us , os gwelwch yn dda, gan ddefnyddio negesydd gwe, cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch â ni drwy'n ffonio ar 0800 085 8033.

Gallwch bob amser ysgrifennu atom hefyd yn: Hafren Dyfrdwy, PO Box 507, Darlington, DL1 8XF.